Astudiaeth achos o weithio gyda grwpiau targed:

Datblygu grŵp cerdded a siarad i ddysgwyr Cymraeg gyda Valeways.

Dewch i Gerdded
Let's Walk

cerdded am oes
walk 4 life

sportwales
chwaraeoncymru

Noddir gan
Lywodraeth Cynulliad Cymru
Sponsored by
Welsh Assembly Government

Cyflwyniad

Sefydlwyd Valeways yn 1996 pan ddaeth criw o gerddwyr at ei gilydd fel grŵp gweithredu i gydweithio gyda Chyngor Bro Morgannwg a pherchnogion tir er mwyn agor hawliau tramwy cyhoeddus yn y sir. Bellach, mae Valeways yn elusen gyda chyfansoddiad gydag un aelod o staff llawn amser a dau aelod o staff rhan amser, yn gweithio mewn tri maes allweddol: hybu llwybrau cerdded, cynnal a chadw a gwella'r rhwydwaith o hawliau tramwy cyhoeddus yn y Fro a cherdded tywys.

Tyfodd y cerdded tywys a gyllidir ar hyn o bryd gan Dewch i Gerdded Cymru allan o gynlluniau cynharach ar gyfer cerdded iach. Ceir rhaglen graidd chwarterol o deithiau cerdded iach ledled y sir, dan arweiniad tîm o 13 o arweinwyr cerdded gwirfoddol. Ar gyfartaledd, cynhelir dwy daith gerdded yr wythnos, yn agored i unrhyw un. Mae tua 350 o gerddwyr wedi'u cofrestru ac mae'r cerddwyr yn cael mynychu pa bynnag deithiau maent yn dymuno. Mae'r rhan fwyaf o'r teithiau

cerdded yn rhyw 60 – 90 munud o hyd ond ceir hefyd deithiau estynedig sy'n rhyw 2 – 3 awr, ar gyfer pobl sydd wedi dod yn fwy heini, a theithiau cerdded byrrach o ryw 30 – 40 munud ar gyfer y rhai llai abl.

Mae staff Valeways yn cydlynu'r rhaglen ond fel y dywed y cydlynydd, "Hwylusydd ydw i a'n ethos ni yw gwireddu potensial y gwirfoddolwyr". Mae'n anfon templad allan at y gwirfoddolwyr, sy'n defnyddio'r templad hwn i ddarparu gwybodaeth am y teithiau cerdded y byddant yn eu harwain yn ystod y chwarter dilynol. Er bod cyfarfodydd achlysurol yn cael eu cynnal, mae'n gweld bod e-bost yn gyfrwng cynyddol effeithiol i gyrraedd at y gwirfoddolwyr prysur. Y cydlynydd sy'n gyfrifol am waith marchnata'r rhaglen.

Yn ychwanegol at y brif raglen o deithiau cerdded iach, ceir hefyd daith gerdded reolaidd ar gyfer dysgwyr a siaradwyr Cymraeg. Pan ddaeth y cydlynydd presennol i'r swydd hon, teimlai fod deunyddiau hybu teithiau cerdded Cymraeg Valeways yn adnoddau a oedd yn cael eu tanddefnyddio ac felly aeth ati i gynnwys taith Gymraeg yn y rhaglen o deithiau tywys. Fel dysgwr Cymraeg ei hun, roedd hwn yn ddiddordeb personol ganddo hefyd.

Manteision a chyflawniadau mewn perthynas â'r amrywiaeth o weithgareddau

Mae'r daith i 'ddysgwyr a siaradwyr Cymraeg' wedi bod yn gyflwyniad poblogaidd a bellach mae'n denu tua 10 – 12 o bobl bob tro, allan o ryw 50 o bobl sydd wedi cofrestru diddordeb. Mae'r cydlynydd yn parhau i weithredu fel arweinydd cerdded gwirfoddol, gan rannu'r gwaith yma â dau wirfoddolwr arall yn awr. Mae'r grŵp wedi dod yn ffrindiau da ac wedi dechrau mynd i ffwrdd ar wyliau cerdded gyda'i gilydd, yn ychwanegol at eu teithiau cerdded misol rheolaidd. Maent yn tueddu i ddewis ardaloedd Cymraeg eu hiaith, fel Gorllewin Cymru a Bannau Brycheiniog, lle byddant yn clywed y Gymraeg o'u cwmpas.

Mae un aelod o'r grŵp wedi gwirfoddoli i ofalu am dudalen Facebook ar gyfer y daith Gymraeg. Trwy wneud hyn, hybir y teithiau cerdded drwy hysbysu pobl am y digwyddiadau a gosodir lluniau o'r teithiau cerdded ar y rhwydwaith i bobl eu rhannu. Hefyd, mae cydlynydd Valeways yn defnyddio ffurfiau mwy traddodiadol o farchnata, gan gysylltu â sefydliadau sydd â diddordeb arbennig yn yr iaith Gymraeg er mwyn cael cyhoeddusrwydd i'r teithiau cerdded, yn cynnwys Menter Y Fro a Menter Caerdydd, yn ogystal â darparwyr cyrsiau addysg cyfrwng Cymraeg i oedolion ac ysgolion cyfrwng Saesneg a Chymraeg lleol.

Mae Bro Morgannwg yn ardal yng Nghymru lle nad oes cymaint â hynny'n siarad Cymraeg ond mae Caerdydd a'r cyffiniau'n ardal o dwf. Y nod yw cynnal taith gerdded anffurfiol a chymdeithasol lle nad yw safon y Gymraeg – na hyd yn oed defnyddio'r Gymraeg drwy'r amser – yn bwysig; yn hytrach, mae'n ymwneud â'r grŵp yn cynnig cyfle i bobl ddefnyddio eu Cymraeg. I ddysgwyr, mae'n amgylchedd llawer llai artiffisial na'r ystafell ddosbarth a gallant ddefnyddio'r iaith "mewn ffordd gyfforddus, gymdeithasol". I siaradwyr Cymraeg, mae'n gyfle iddynt gefnogi eraill i ddysgu Cymraeg.

- I **Valeways**, mae'r daith gerdded Gymraeg yn eu galluogi i gefnogi'r iaith Gymraeg ac mae'n brawf gweithredol o ymroddiad y sefydliad iddi. Fel dywed y cydlynydd, "Mae'n rhan fechan ond ystyrlon iawn o'r hyn mae Valeways yn ei wneud". Mae'n bwydo i waith arall Valeways, e.e. sicrhau cydraddoldeb i'r Gymraeg a'r Saesneg drwy ddechrau llunio canllawiau cerdded dwyieithog (yn hytrach na'r canllawiau Saesneg a Chymraeg ar wahân a gynhyrchwyd o'r blaen).

- I'r **cydlynydd**, mae'r teithiau cerdded wedi cynnig cyfleoedd i ddatblygu'n bersonol. Yn ogystal â rhoi cyfle iddo ddefnyddio ei Gymraeg wrth gerdded ac wrth gydlynu a marchnata'r teithiau, mae wedi cadarnhau iddo "sut ddylai Cymraeg fod yn rhan o'm gwaith i gyd".

- I'r **cerddwyr** Cymraeg eu hiaith, maent wedi datblygu synnwyr o falchder wrth helpu eraill i deimlo'n gyfforddus yn siarad Cymraeg ac yn dysgu mwy.

Ffactorau llwyddiant

Mae'r cydlynydd wedi crybwyll ambell beth sydd wedi helpu i wneud y daith Gymraeg yn un llwyddiannus:

- Nid ydynt yn ceisio ei gwneud yn gyfrwng Cymraeg yn llwyr, sy'n golygu ei bod yn groesawus ac yn gynhwysol i unrhyw un gyda diddordeb mewn Cymraeg, hyd yn oed os mai dim ond dechrau dysgu'r iaith maen nhw.
- Ei ymroddiad personol ei hun. Dywed bod hyn yn bwysig mewn unrhyw sefydliad bychan a bod angen rhywun rhagweithiol sy'n gallu datblygu syniadau, fel y gwnaeth o gyda'r daith Gymraeg.
- Mae'n gysyniad syml ac maent wedi llwyddo i'w hybu'n dda.

Yr her

Pan sefydlwyd y daith i ddechrau, fe wnaethant ddenu cryn dipyn o bobl nad oeddent yn ymroddedig i'r cysyniad o siarad Cymraeg (ond yn hytrach i'r ffaith bod y teithiau cerdded yn tueddu i fod yn hirach na nifer o'r rhai ar brif raglen Valeways). Er mwyn goresgyn hyn, anogodd y cydlynydd y bobl hyn i ymuno â theithiau cerdded priodol ar y rhaglen graidd ac, yn bwysicach na dim, gwahanwyd y daith Gymraeg oddi wrth y craidd a nawr mae'n cael ei marchnata ar wahân. Trwy wneud hyn, mae'n amlwg ei bod ar gyfer cynulleidfa gyda diddordeb yn y Gymraeg.

Hunangynhaliaeth ac edrych ymlaen

- Dyhead y cydlynydd ar gyfer y grŵp cerdded Cymraeg yw iddo raddol gynyddu yn ei aelodaeth, "tyfu'n raddol o amgylch cnewyllyn iach". Mae'n gweld cyfleoedd ar gyfer rhagor o farchnata drwy ysgolion, gan ddenu rhieni a phlant.

- Dywed bod raid i'r grŵp cerdded Cymraeg – a grwpiau eraill Valeways – fod yn barod i ysgwyddo cyfrifoldeb eu hunain. Er ei fod yn cydlynu'r rhaglen Gymraeg o deithiau cerdded ar hyn o bryd, mae'n teimlo y byddai aelodau'r grŵp yn gallu gwneud hyn, gan mai ychydig iawn o waith gweinyddol sydd i'w wneud ac "na fydd y bobl sydd ynddo'n gadael iddo farw, gan ei fod wedi dod mor gymdeithasol". Dywed nad oes angen cyllid drwy'r amser, gan ei fod yn gysyniad mor syml.

- Er mwyn i unrhyw grŵp fod yn hunangynhaliol, cred y cydlynydd bod raid wrth rywun yn ei yrru yn ei flaen, rhywun gydag angerdd a diddordeb i wneud i bethau ddigwydd. Bydd rhai grwpiau'n dewis ffurfioli ac eraill yn dewis aros yn anffurfiol iawn. Dywed mai'r opsiwn olaf yw'r un cyflymaf i'w sefydlu; nid yw'n tueddu i fod angen adnoddau a gall fod yn haws i'w gynnal, ond efallai bydd angen strwythur mwy ffurfiol os yn darparu teithiau cerdded i bobl eraill.

- Mae Valeways yn elusen annibynnol ac felly gellir ei hystyried fel menter hunangynhaliol eisoes, yn defnyddio amrywiaeth o ffynonellau cyllido i weithredu ei gweithgareddau. Mae'r model hwn wedi galluogi'r sefydliad i weithio yn y Fro ers nifer o flynyddoedd bellach.

Mae cefnogaeth Dewch i Gerdded Cymru i Valeways wedi sicrhau cymorth ariannol i'w rhaglen cerdded iach, yn arbennig drwy dalu am amser y swyddogion. Mae'r cydlynydd yn gwerthfawrogi hyblygrwydd y rhaglen, sy'n galluogi iddo weithio'n annibynnol ac nid yw'n arwain at faich monitro trwm. Hefyd, dywed bod Dewch i Gerdded Cymru wedi darparu strwythur cefnogi allanol, yn cynnwys rhaglen hyfforddi ac yswiriant trydydd person ar gyfer yr arweinwyr cerdded gwirfoddol, a chyngor bob amser i'r cydlynydd. Mae Valeways yn gyffredinol wedi elwa o'r proffil cenedlaethol y mae'r cyswllt â Chwaraeon Cymru'n ei gynnig,

Y gwahaniaeth mwyaf arwyddocaol a wnaed gan y cynllun hwn

Fe wnaethom ni ofyn i'r cydlynydd gwblhau'r frawddeg a ganlyn,

"Yn fy marn i, y gwahaniaeth mwyaf arwyddocaol y mae'r cynllun hwn yn ei wneud i'r bobl sy'n cymryd rhan yw..... rhoi cyfle i bobl sgwrsio'n gymdeithasol yn y Gymraeg".

Cyswllt:
Valeways
Ffôn: 01446 749000
E-bost: info@valeways.org.uk
Gwefan: www.valeways.org.uk